

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 14 Ionawr, 2019 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Gwyn (GW) Iolo (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Iolo (ap Gwynn) (IAG), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Eirwen (EW), Richard (RR)

Ymddiheuriadau: Raymond, Dewi

Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb ac fe groesawodd Iona i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Hydref, 2018 fel rhai cywir.</p>
2.	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p><u>Tâl Aelodaeth</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol hefo tâl aelodaeth</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• bod 190 wedi talu'r tâl newydd o £20• 74 wedi talu'r hen dâl o £15• 14 wedi datgan eu bod yn terfynu eu haelodaeth• 26 heb dalu eto ond bod tua 5 o rheini yn arfer talu'n hwyr beth bynnag.• 5 aelod newydd wedi ymaelodi ers dechrau'r flwyddyn• 14 o'r rhai a arferai dalu hefo siec heb yrru'r tâl aelodaeth eto ac o bosib eu bod ddim am ail-ymaelodi• nad oedd cyfle wedi bod eto i ddechrau ar y gwaith o gofrestru'r Clwb fel elusen <p>Cytunwyd</p> <p>i. dylai IPR ysgrifennu at y 74 oedd wedi talu £15 yn rhoi cerdyn aelodaeth iddynt, egluro'r cefndir tu ôl i godi'r tâl aelodaeth a gofyn iddynt dalu'r £5 ychwanegol. Hefyd nodi y bydd eu haelodaeth yn terfynu ar ôl eleni os na fyddent yn talu'n llawn</p> <p>ii. Gyda'r 14 oedd yn talu â siec gofyn i DAP ysgrifennu atynt yn nodi eu bod heb dalu a holi os oeddent hefo bwriad i ail-ymaelodi neu beidio</p> <p><u>Cerdyn Talu Banc</u></p> <p>Adroddodd DAP y bydda'n hwyluso ei gwaith pe byddai ganddi gerdyn debyd er mwyn gallu gwneud taliadau o gyfrif y Clwb yn arbennig mewn achosion lle ceir sefydliadau/busnesau sydd ddim yn fodlon derbyn sieciau</p> <p>Cytunwyd cefnogi cais y Trysorydd i gael cerdyn debyd ar gyfer cyfrif banc y Clwb.</p>
3.	<p><u>CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU</u></p> <p>Adroddwyd bod cais wedi ei dderbyn gan Rhian Parry o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn holi a fyddai gan y Clwb ddiddordeb mewn cydweithio hefo'r Gymdeithas ar eu cynllun arfaethedig a fyddai yn cofnodi mân enwau ar lwybrau a mynyddoedd ac ati.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn, gwelwyd fod y Clwb yn gefnogol iawn i unrhyw ymdrech i warchod enwau lleoedd Cymraeg ac yn bryderus iawn am y bygythiad cynyddol sydd yn bodoli iddynt.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. dylid cysylltu â Rhian Parry yn dweud tra bod y Clwb yn gefnogol iawn mewn egwyddor i'r hyn a gynnigir, bydd angen i'r Gymdeithas fod yn gliriach ym mha ffordd y gallai'r Clwb fod o gymorth iddynt mewn menter o'r fath</p> <p>ii. gofyn i EO edrych os oes modd i'r Clwb a CMP gynhyrchu rhestr gyflawn o enwau cywir ar fynyddoedd a fyddai ar gael i'w cynnwys ar Wicipedia ac i'w ddefnyddio gan olygyddion cylchgronau awyr agored.</p>

<p>4.</p>	<p><u>DARLITH EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2019</u></p> <p>Adroddwyd fod Huw Brassington wedi cytuno i roi y ddarlith yn yr Eisteddfod eleni</p> <p>Cytunwyd gofyn i DP wneud y trefniadau angenrheidiol sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llogi amser ym Mhabell y Cymdeithasau, ar brynhawn dydd lau os yn bosib • Trefnu paratoi deunydd cyhoeddusrwydd drwy law Maldwyn Roberts ac wedyn ei argraffu
<p>5.</p>	<p><u>DATHLIADAU PEN-BLWYDD Y CLWB YN 40 YN 2019</u></p> <p>Adroddwyd fod CMP, MTA a'r Partneriaeth Awyr Agored wedi datgan diddordeb mewn rhannu stondin gyda'r Clwb yn yr Eisteddfod a chyfrannu at y gost. Roedd y 3 corff i weld yn barod i roi £500 yr un tuag at y gost ond o bosib byddai CMP yn fodlon rhoi mwy</p> <p>Byddai'r gost o logi 2 uned yn £2096 a 3 uned yn £2958 gyda chyflenwad trydan ond dim dŵr.</p> <p>Gallasai fod cymorth i fyny at £1000 ar gael o gynllun Cronfa Eryri Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y gellid ei ddefnyddio i dalu am ddeunydd ac ati ar gyfer y stondin</p> <p>Bod yn bwysig bod gan y Clwb raglen o weithgareddau addas ar gyfer y stondin</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> yn sgil y cymorth gan y cyrff eraill mai llogi 3 uned ddylid ei wneud yn yr Eisteddfod eleni diolch i SW am ei waith yn trafod hyn gyda'r 3 corff dan sylw a gofyn iddo holi CMP i weld os y byddent yn fodlon cynyddu lefel eu cymorth gofyn i IAG holi swyddogion Awdurdod y Parc i weld os yn bosib cael cymorth o'u Cronfa Eryri dylid trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 11 Chwefror 2019 er mwyn gallu ystyried pa weithgareddau y dylid eu trefnu ar gyfer y stondin yn ystod wythnos yr Eisteddfod estyn gwahoddiad i Anet a Maldwyn fod yn bresennol yn y cyfarfod arbennig
<p>6.</p>	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2018</u></p> <p>Adroddodd IPR ar y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn y Llew Gwyn, Y Bala ym mis Tachwedd.</p> <p>Nododd fod y cyfarfod wedi cymeradwyo cynyddu'r tâl aeolodaeth yn unol ag argymhelliad y pwyllgor.</p> <p>Hefyd gan fod sedd wag ar y pwyllgor, rhoddwyd hawl i'r pwyllgor gyfethol aelod i wasanaethu arno.</p> <p>Roedd yn gyfarfod lle nad oedd gŵr/gwraig gwadd wedi ei drefnu ac er hynny roedd yn ymddangos iddo fod yn gyfarfod llwyddiannus.</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> dylid gofyn i Gareth Everet Roberts a fyddai'n fodlon gwasanaethu fel aelod ar y pwyllgor dylid cadw mewn cof i'r dyfodol os nad oes enw amlwg yn cael ei gynnig ar gyfer gŵr/gwraig gwadd ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ei fod yn bosib ei gynnal yn llwyddiannus heb un.
<p>7.</p>	<p><u>CANLLAWIAU/RHEOLAU AR GYFER TEITHIAU PRESWYL CLWB MYNYDDA CYMRU</u></p> <p>Cyflwynodd EO ganllawiau arfaethedig ar gyfer aelodau sy'n trefnu teithiau preswyl ar ran y Clwb.</p> <p>Nodwyd fod y pwyllgor mewn cyfarfodydd blaenorol wedi nodi y dylid ceisio sicrhau nad yw'r teithiau preswyl yn gwneud colled ac wedi pwysleiso os yw aelod yn gwneud ymrwymiad i fynychu yna ni ddylai disgwyl cael ad-daliad os yn methu mynd wedyn. Roedd y Cyfarfod Blynyddol yn y Bala wedi cytuno â'r egwyddor na ddylai teithiau preswyl wneud colled gyda'r Clwb wedyn yn gorfod ysgwyddo'r gost o'i goffrau.</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> derbyn y canllawiau gyda diwygiad i gymal 10 i ddatgan na fydd ad-daliad yn cael ei wneud ar ôl derbyn cais aelod i fynychu oni bai fod aelod arall yn fodlon cymryd ei le. atgoffa'r aelodaeth bod gan y CMP a sefydliadau/chwmnïau eraill bolisiau yswiriant a fyddai'n gallu ei digolledu os oes rheswn dilys dros orfod canslo gofyn i EO gylchredeg y canllawiau ymysg yr aelodaeth a threfnu i'w rhoi ar y wefan.

<p>8.</p>	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>A. Diwrnod Blasu</p> <p>Adroddoddd EO mai ymateb amrywiol a gafwyd i'r teithiau blasu a drefnwyd gan y Clwb llynedd, rhai yn fwy llwyddiannus o safbwynt niferoedd i gymharu ag eraill. Roedd criw y De wedi cytuno i wneud un daith eto eleni i weld sut ymateb a geir</p> <p>Cytunwyd i. dylid cynnal diwrnod blasu eto eleni ar ddiwrnod Calan Mai a chael tair taith fel a canlyn:</p> <p>Y Cnicht Cader Idris Ardal y De - Criw y De i benderfynu ar daith</p> <p>ii. Wedi gweld yr ymateb i'r teithiau eleni dylid ystyried a oes gwerth i barhau</p> <p>B. Teithiau Preswyl</p> <p>Adroddodd EO bod dwy daith wedi eu trefnu yn yr Alban eleni sef i ardal Mynyddoedd Cairngorm ym mis Chwefror gyda Maldwyn yn trefnu ac i ardal Glencoe ym mis Mai gyda Gareth Everett Roberts yn trefnu</p> <p>Bod GW wedi gwneud ymholiadau gydag Hostel YHA yn Libanus ym Mannau Brycheiniog a'u bod yn fodlon cadw cynifer o ystafelloed yno i'r Clwb ar gyfer 7-9 Mai am gyfnod o 3 wythnos nes cael penderfyniad terfynol.</p> <p>Bod RG wedi gwneud ymholiadau i drefnu taith i fynyddoedd Mourne yng Nogledd Iwerddon yn yr Hydref.</p> <p>Cytunwyd i. dylid derbyn cynnig yr hostel yn Libanus i neilltuo'r ystafelloedd i'r Clwb am y dyddiadau dan sylw ac y dylid gyrru nodyn i'r aelodau yn eu gwahodd i roi eu henwau ymlaen os a diddordeb mewn mynychu</p> <p>ii. cytuno ag awgrym RG i drefnu taith i Ogledd Iwerddon ym mis Hydref ac awgrymu ei fod yn mynd yn ôl at y llety i gadarnhau dyddiadau posib</p> <p>iii. gan fod ymateb positif wedi bod i'r trip i'r Alban ym mis Mai cymeradwyo gweithred EO yn llogi caban ychwanegol ar y safle.</p>
<p>9.</p>	<p><u>MATERION CMP</u></p> <p>Adroddodd SW ar gyfarfod rhanbarthol y CMP a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2018 yn Llanberis. Soniwyd yno am ail-adeiladau'r bont dros yr afon yng Nghwm Dudodyn yn Nant Peris. Nododd fod Gareth Pierce wedi bod yn bresennol yno fel y Cadeirydd newydd.</p>
<p>10.</p>	<p><u>MATERION Y BARTNERIAETH</u></p> <p>Adroddwyd bod RG wedi gyrru neges yn nodi fod nifer o aelodau hefo cymhwyster cymorth cyntaf REC sy'n parhau am 3 blynedd a fydd yn dod i ben eleni a holodd os y dylai gysylltu â'r Bartneriaeth i weld os y gellir trefnu cwrs arall eleni er mwyn i aelodau gael cyfle i adnewyddu eu cymhwyster.</p> <p>Cytunwyd os oedd diddordeb ymysg aelodau y dylid cynnig trefnu cwrs cymorth cyntaf REC eleni.</p>
<p>11.</p>	<p><u>GWEFAN Y CLWB</u></p> <p>Adroddodd IAG ei fod wedi dod i gytundeb â Flicr i gael storfa o faint addas i gadw lluniau'r Clwb fel y gellir eu harddangos ar y wefan a bod taliad wedi ei wneud i'r cwmni.</p>
<p>12.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i drafod trefniadau'r Eisteddfod yn cael ei gynnal ar nos Lun, 11 Chwefror a chyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor ar nos Lun, 20 Mai, 2019. Y ddau gyfarfod yng Nghapel Curig os yn bosib</p>

